**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

Medi 29ain 2023

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

Annwyl Peredur

Ysgrifennaf atoch parthed y cyfarfod a gawsom ar 12 Medi, pan wnaethom drafod, ymhlith pethau eraill, y taliad costau byw arfaethedig i staff y Comisiwn. Ar 19 Medi, cyflwynwyd cynnig ffurfiol i'r Undebau Llafur. Y cynnig yw talu'r swm llawn o £1,500 i bob aelod o staff rhwng graddau Cymorth Tîm a Gradd 6, a hynny ar ffurf dau randaliad yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y taliad fydd £824,000. Ar 26 Medi, cadarnhaodd Ochr yr Undebau Llafur eu bod yn fodlon â chynnig y Comisiwn o ran y taliad dan sylw.

Fel Swyddog Cyfrifo Comisiwn y Senedd, ysgrifennaf atoch i'ch sicrhau bod y gwariant yn fforddiadwy, yn amodol ar wneud arbedion. Gwnaed y penderfyniad i rannu'r taliad er mwyn sicrhau y bydd yr arian angenrheidiol yn hollol weladwy ar y pwynt y caiff ei dalu. Rydym wedi cydweithio'n agos ag aelodau'r Comisiwn i geisio eu barn a'u cyngor wrth i ni symud drwy'r broses hon. Mae'r Comisiwn wedi craffu ar y camau y bydd angen eu cymryd er mwyn sicrhau bod y taliad hwn yn fforddiadwy, ac wedi cytuno arnynt.

Bydd rhai o'r arbedion gofynnol yn cymryd mwy o amser i'w gwireddu nag eraill yn y flwyddyn ariannol dan sylw.

Mae'r arbedion hyn yn cynnwys:

- Hyfforddant ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd a staff y Comisiwn;
- Costau teithio a chynhaliaeth ar gyfer y pwyllgorau, gweithgarwch ymgysylltu rhyngwladol, a staff y Comisiwn;
- Lleihau nifer y digwyddiadau a gynhelir;

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

- Lleihau nifer y cyhoeddiadau a brynir;
- Oedi'r broses o brynu dodrefn.

Mae rhestr lawn o'r cyllidebau yr effeithir arnynt i'w gweld yn Atodiad 1.

Byddwn yn parhau i archwilio'n fanwl unrhyw wariant arfaethedig nad oes ymrwymiad iddo eto. Yn ogystal, byddwn yn oedi'r rhan fwyaf o weithgarwch recriwtio'r Comisiwn, o leiaf am weddill y flwyddyn ariannol hon. Darperir dadansoddiad manwl o'r uchod yn yr Atodiad yr wyf yn ei rannu â chi, a hynny'n gyfrinachol.

Rydym yn gwerthfawrogi'n llwyr y ffaith y bydd yr Aelodau'n pryderu ynghylch yr effaith bosibl ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt am weddill y flwyddyn. Drwy gydol y broses hon, rydym wedi ceisio lleihau'r effaith uniongyrchol ar y gwasanaethau hynny. Fodd bynnag, er mwyn gwneud y taliad hwn, roedd angen canfod ac ailgyfeirio lefel sylweddol o gyllid yn ystod y flwyddyn, ac mae'n anochel y bydd hyn yn cael rhywfaint o effaith.

Yn ystod y misoedd nesaf, bydd y Comisiwn yn trafod yr opsiynau a'r argymhellion ar gyfer canfod arbedion o gyllidebau'r Comisiwn a allai arwain at oblygiadau parhaus o ran y gwasanaethau a ddarperir i'r Senedd ac i'r Aelodau. Cyn y bydd penderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud, bydd y materion hyn hefyd yn cael eu trafod ag arweinwyr y grwpiau, cadeiryddion y grwpiau, cadeiryddion y pwyllgorau, y penaethiaid staff, cynrychiolwyr yr undebau llafur, uwch reolwyr a staff.

Byddaf yn hapus i ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Yn gywir

Manon Antoniazzi

**Manon Antoniazzi**
**Swyddog Cyfrifo**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Atodiad A – Rhestr Fanwl o Arbedion

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]